

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Landshipping/Coedcanlas

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



# Landshipping/Coedcanlas

## Teithiau Hanner Dydd a Mwy

**Hyd:** 2 awr

**Pellter:** 5.0 milltir (8.0 km)

**Cludiant cyhoeddus:** Ffonio a Theithio Bloomfield (tymhorol 0800 783 1584).

**Cyfeirnod map:** SN012118

***Dewch draw i bentrefan hyfryd i gael dysgu am hen fwyngloddiau a lagwnau wedi eu boddi...***

**Chwiliwch am:** Capel Burnett's Hill, treftadaeth lofaol, pyllau heb eu defnyddio/lagwnau, Cei Landshipping, golygfeydd dros yr aber.

Mae Landshipping yn bentrefan bach hyfryd ar lannau dwyrain y Cleddau. Ar un adeg, roedd ei hen gei gwag, filltir i'r de ble mae'r Daugleddau yn dargyfeirio, yn derfynfa fferi ac yn borthladd glo prysur. Y 'Garden Pit' oedd safle trychineb glofaol ofnadwy 1844 pan dorrodd y môr i mewn i weithfeydd y mwynglawdd. Lladdwyd 42 person - llawer yn fenywod ac yn blant. Mae'r ardal yn frith o weithfeydd mwyngloddio a lagwnau wedi eu boddi.

Adferwyd Capel Burnetts Hill yn Martletwy gyda chymorth Cronfa Treftadaeth y Loteri a gafodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn 2001. Cyn hyn, nid oedd y capel bach wedi newid am 200 mlynedd. Mae yna olygfeydd gwych o'r ddyfrffordd.

**Cymeriad:** Blaendraeth, caeau a da byw, isffyrdd (1.5 km).

**Mwy o wybodaeth:** Llwybr rhwng Brickyard & Sam's Wood yn ddarostyngedig i lanw uchel - tablau llanw gwirio.